

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd nos Lun, 7 Ionawr, 2019 am 7.30yh
yn Ystafell Berkley, Penyparc

Presennol:

Cyng. Dilwyn Jenkins (<i>Cadeirydd</i>)	Cyng. Auriol Williams (<i>Is-Gadeirydd</i>)
Cyng. Ann Stokoe	Cyng. Lyn Jones
Cyng. Lloyd Jenkins	Cyng. Eurig Lloyd
Cyng. Matthew Morgan	
Cyng. Clive Davies (<i>Aelod lleol o'r Cyngor Sir</i>)	Mrs Hildreth Owen (<i>Clerc</i>)

1. **Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb. Llongyfarchodd y Cyng. Clive Davies a'r Cyng. Lloyd Jenkins am eu rhan yn rhaglen "Ffermio" S4C yn ymwneud â band-eang y gymuned.

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:

Y Cyng. Cllr Des Davies (yn cynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfod Cronfa Leol Eisteddfod Ceredigion 2020)
Y Cyng. Llinos Price, Y Cyng. Peter Williams.

3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.

Cynigiwyd gan y Cyng. Ann Stokoe ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod cofnodion mis Rhagfyr yn gywir.

4. Datgelu buddiannau personol: Dim

5. Materion yn codi:

(a) **Cinio Nadolig i'r Henoed (dros 70 oed):** Cafwyd cinio llwyddiannus gyda 37 yn bresennol. Diolch i'r Cadeirydd a'i briod am drefnu'r adloniant. Diolchodd y Cadeirydd am y gwobrau raffl a hefyd i'r Clerc am gynorthwyo.

6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Cyngor ar Bopeth	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	£150.00
Gofal Mewn Galar	£50.00
Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru	£150.00
Capel y Bedyddwyr Penyparc	£1,000.00
Clwb Pêl-droed Penyparc	I'w drafod ym mis Ebrill 2019
Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Ebrill 2019
Pwll Nofio Aberteifi	£1,000.00

7. Cynllunio:

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau'r Cyngor
A181127	Crugmore Farm, Penyparc: Variation of condition 2 of planning decision A130627 to accommodate alterations to the proposed scheme (reduction in ground level; different holding and digester tanks; formation of an earth bund instead of concrete retaining walls and associated works)	Daethpwyd i'r penderfyniad nad oedd gan yr aelodau ddigon o wybodaeth am faterion technegol y cais.

8. Materion Ariannol

Biliau wedi eu talu:

Pwll Nofio Aberteifi (gweler eitem 6 uchod)	101734	£1,000.00
Clwb Golff Aberteifi (Cinio Nadolig yr Henoed)	101735	£379.50
Cyflog y Clerc (Rhagfyr 2018)	101736	£308.77
Costau'r Clerc (Rhagfyr 2018)	101737	£42.60

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Rhagfyr 2018) (Mae sicciau 101739 a 101740 wedi eu diddymu oherwydd amryfusedd)	101738	£77.20
Bus Shelters Ltd. (Cysgodfan Penyparc)	101741	£5,114.24
SSE Swalec (Trydan ystafelloedd newid Ystafell Berkley)	101742	£85.53
Newsquest: Hysbyseb am swydd Clerc i'r Cyngor (Tivy-Side)	101743	£130.80
Swallows (Insignia Business Solutions): Toner i'r argraffydd	101744	£72.54
Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc: Glanhau Ystafell Berkley (10/9/18 – 11/12/18)	101745	£225.00
Hen Ysgol y Ferwig: Rhent am ddefnydd o'r Hen Ysgol am 2018.	101746	£120.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Ann Stokoe bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Materion ariannol eraill: Dosbarthwyd adroddiad ariannol y cyfrifon am y naw mis hyd at 31 Rhagfyr i'r aelodau yn y cyfarfod. Cymeradwywyd y fantolen gan y Cyngor.

Cyllideb 2019-20: Mae'r ddogfen yn cynnwys awgrymiadau'r Clerc tuag at gyllideb 2019-20 wedi ei blaenyrru at yr aelodau ymlaen llaw ar 21 Tachwedd. Penderfynwyd ar gyllideb o £21,000. Cynigiwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd ac eiliwyd gan y Cyng. Ann Stokoe.

Derbyniadau: Dim

9. Gohebiaeth:

61	Cyngor Sir Ceredigion (Matthew Collins, Periannydd Cynorthwyol Rheoli Traffig)	Newidiadau arfaethedig i'r cyfyngiadau parcio yn Patch. Caiff materion parcio yn y ward gyfan eu mabwysiadu yn ystod y gwanwyn.	Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 13 Rhagfyr. Trafodwyd yr argymhellion. Bydd y Cyng. Clive Davies yn cyfarfod â swyddogion morol yr ardal yn ystod Ionawr/Chwefror i drafod datblygiadau yn ardal Patch.
62	Cyngor Sir Ceredigion (Andrew Ginn, Rheolwr Gweithrediadau)	Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer eu hardal.	Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 13 Rhagfyr. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 2 Rhagfyr am gyfnod o 12 wythnos. Mae holiadur ar-lein: https://www.surveymonkey.co.uk/r/WBVFJR3
63	Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020: Cronfa Leol, Ardal Aberteifi Plwyfi'r Ferwig a Llangoedmor	Gwybodaeth am gyfarfod i drafod codi arian ar gyfer Eisteddfod Ceredigion 2020, 7 Ionawr 2019 am 7:00yh yng Nghastell Aberteifi.	Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 14 Rhagfyr. Gwirfoddolodd y Cyng. Des Davies gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod.
64	Pwyllgor Hen Ysgol y Ferwig	Cais am llythyr o gefnogaeth tuag at gais at Lywodraeth Cymru am grant i godi estyniad i'r adeilad.	Cytunwyd bod y Clerc yn anfon llythyr o gefnogaeth i bwyllgor y Hen Ysgol.
65	Llywodraeth Cymru	Camau nesaf Llywodraeth Cymru wrth weithredu ei ddull polisi ar gyfer y sector Cymuned a Chynghorau Tref.	Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 7 Ionawr.

10. Materion Eraill:

- (a) **Golygfan y Gwbart:** Mae angen llenwi'r ceubyllau sydd yn yr Olygfan; dywedodd y Cyng. Matthew Morgan y byddai'n barod i wneud y gwaith. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd. Hefyd, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn a byddent yn barod i wacáu'r bin pe bai'r Cyngor Cymuned yn pwrcasu un i'r safle.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:

- (a) **Brynteg, Ferwig:** Mae'r swyddog cynllunio Catrin Newbold wedi cytuno i ymweld â'r safle er mwyn dod â'r mater i ben. Gellir wedyn ailosod y plinth yn ei lle priodol.
- (b) **Band-eang yn Felinwynt:** Cynhelir cyfarfod agored rhwng trigolion Felinwynt ac Elin Jones AC ar 9 Rhagfyr i drafod y diweddariad am osod system band-eang cyflym yn yr ardal. Mae'r Cyng. Davies yn y broses o ffurfio map i ddangos y gwendidau sydd yn y rhwydwaith er mwyn datrys y broblem yn ystod 2019.
- (c) **Y Sied, Mwnt:** Mae'r cais wedi ei gymeradwyo gan y cyngor sir. Cefnogwyd y cais yn y cyfarfod gan Gadeirydd y Cyngor, y Cyng. Dilwyn Jenkins. Fel un o'r amodau, bydd rhaid i'r ymgeisydd ddarparu gwelliannau i'r heol o fewn chwe mis. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cadarnhau bod ganddynt gyfamod cyfreithiol i'r ffordd i draeth y Mwnt a bod angen cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig. Oherwydd y cymhlethdodau hyn, bydd rhaid i'r ymgeisydd ofyn am estyniad i'r amodau oherwydd trafndiaeth yr haf.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 4 Chwefror (F)

Cyfarfodydd y Cyngor am 2019:

4 Mawrth (YB) 1 Ebrill (F) 13 Mai (YB) 3 Mehefin (F)

1 Gorffennaf (YB) 2 Medi (F) 7 Hydref (YB) 4 Tachwedd (F) 2 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on Monday, 7 January, 2019 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

Present

Cllr Dilwyn Jenkins (*Chairperson*)

Cllr Ann Stokoe

Cllr Lloyd Jenkins

Cllr Matthew Morgan

Cllr Clive Davies (*Local member of the County Council*)

Cllr Auriol Williams

Cllr Lyn Jones

Cllr Eurig Lloyd

Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

1. Chairperson's welcome and Personal Matters.

The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed all members to the first meeting of the new year. He wished all members a Happy New Year and congratulated Cllr Clive Davies and Cllr Lloyd Jenkins following their appearance on the S4C programme "Ffermio" regarding Superfast Broadband in the community

2. Apologies for absence: Cllr Des Davies represented Ferwig Community Council at the meeting regarding fund raising for the Cronfa Leol Eisteddfod Ceredigion 2020. Cllr Llinos Price, Cllr Peter Williams.

3. Minutes of the previous meeting.

It was proposed by Cllr Ann Stokoe and seconded by Cllr Auriol Williams that the minutes of the December meeting be recorded as correct.

4. Declaration of personal interests: None

5. Matters arising:

- (a) **Christmas Dinner for the over 70's in the community:** The dinner was held on Friday 14 December with 37 members of the community present. The Chairman and his wife were thanked for organising the event. Cllr Dilwyn Jenkins thanked all who brought raffle prizes and the Clerk for assisting.

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Citizens' Advice Bureau	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	£150.00
Cruse Bereavement Care	£50.00
Bobath Wales Children's Therapy Centre	£150.00
Penyparc Chapel	£1,000.00
Cardigan Swimming Pool	£1,000.00
Penyparc Football Club	To be discussed in April 2019
Hen Ysgol y Ferwig	To be discussed in April 2019

7. Planning:

<i>App No</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>Council Observations</i>
A181127	Crugmore Farm, Penyparc: Variation of condition 2 of planning decision A130627 to accommodate alterations to the proposed scheme (reduction in ground level; different holding and digester tanks; formation of an earth bund instead of concrete retaining walls and associated works)	Members feel they don't have the required technical expertise to comment on this application.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

8. Financial Matters.

Bills paid:

Cardigan Swimming Pool & Memorial Hall	101734	£1,000.00
Cardigan Golf Club (Christmas Dinner for the over 70's)	101735	£379.50
Clerk's wages (December 2018)	101736	£308.77
Clerk's Expenses (December 2018)	101737	£42.60
HM Revenue & Customs: Clerk's Income Tax (Dec. 2018) (Cheques no. 101739 a 101740 cancelled due to error.)	101738	£77.20
Bus Shelters Ltd. (Bus Shelter Penyparc)	101741	£5,114.24
SSE Swalec (Electricity Changing Rooms, Ystafell Berkley)	101742	£85.53
Newsquest: Advertising in the Tivy-Side for clerk's position	101743	£130.80
Swallows (Insignia Business Solutions): Toner for printer.	101744	£72.54
Penyparc YFC: Cleaning changing rooms at Ystafell Berkley (10/9/18 – 11/12/18)	101745	£225.00
Hen Ysgol y Ferwig: Rent for the use of Hen Ysgol for 2018	101746	£120.00

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Ann Stokoe that the above bills be paid.

Other financial matters: The quarterly financial report of the Council (to December 2018) was distributed to members. It was approved by Council.

The 2019-20 Council Budget: The 2019-20 budget document, including the Clerk's recommendations, had been distributed to all members. After discussion, Cllr Eurig Lloyd proposed that the budget be set at £21,000 for the 2019-20 financial year; seconded by Cllr Ann Stokoe.

Receipts: None.

9. Correspondence:

61	Ceredigion Technical Services (Matthew Collins, Traffic Management and Strategy Assistant)	Proposed changes to parking restrictions. To be implemented during the spring.	Forwarded to councillors on 13/12/2018. Cllr Davies will meet with a local marine group to study the possibility of developing the Patch area for commercial tourism.
62	Ceredigion County Council (Andrew Ginn, Operations Ginn)	The Public Health (Wales) Act 2017 requires local authorities to publish a local Toilet Strategy for its area. The provision of and access to toilets is an issue that affects public health.	Forwarded to councillors on 13/12/2018. The consultation period commenced on 2 December for a period of 12 weeks. The questionnaire is available on-line: https://www.surveymonkey.co.uk/r/WBVFJR3
63	National Eisteddfod of Wales Ceredigion 2020 Local Appeal: Cardigan Town, Ferwig and Llangoedmor communities.	Information regarding the Local appeal committee to fund the National Eisteddfod of Wales 2020 in Ceredigion. Meeting held at Cardigan Castle on 7 January at 7.00pm.	Forwarded to councillors on 14/12/2018. Cllr Des Davies volunteered to represent the Council at the meeting.
64	Hen Ysgol y Ferwig Committee	Request for letter of support to the Welsh Government for a grant to build an extension to the building.	The Clerk to forward a letter of support to the committee.
65	Welsh Government	Welsh Government's next step in implementing its policy approach for the community and town council sector.	Forwarded to councillors 7 January, 2019

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

10. Other Matters:

- (a) **Gwbert Viewpoint:** The potholes at the location need repair. Cllr Matthew Morgan volunteered to do the work. He was thanked by the Chairman. The Clerk was requested to ask the County Council to empty a litter bin at the site with the condition that the Community Council purchases the said item.

11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:

- (a) **Brynteg, Ferwig:** The planning officer Catrin Newbold has agreed to visit the site in order to bring the matter to a satisfactory conclusion. The commemorative plinth can then be restored to its rightful place.
- (b) **Super-fast Broadband at Felinwynt:** An open meeting was held on 9 December between Elin Jones AM and local residents to discuss the latest development to improve the broadband service in the area. Cllr Davies is in the process of developing a digital map to highlight the pockets of poor broadband that still exist in the ward in order to find alternative solutions in 2019.
- (c) **The Shed, Mwnt:** The planning application has been approved by the County Council. The application was forcefully supported by the Chairman of the Community Council, Cllr Dilwyn Jenkins, at the meeting. As a result of the approval, the responsibility for improving the road will remain with the applicant as it was within the allowed conditions. The applicant has six months to make improvements to the road. An added complication is that the National Trust has interjected that they have a covenant for the entire road and would need to approve any proposed changes. This will incur additional costs to the applicant who may have to request an extension to the time scale due to heavy summer traffic.

12. Date of next meeting: 4 February 2019 at Hen Ysgol y Ferwig at 7.30pm.

2019 Council Meetings:

4 March (YB) 1 April (F) 13 May (YB) 3 June (F)

1 July (YB) 2 September (F) 7 October (YB) 4 November (F) 2 December (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting